

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Ymateb i Ddiwygio Lles yng
Nghymru**

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

Twitter: [@SeneddArchwilio](https://twitter.com/SeneddArchwilio)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Ymateb i Ddiwygio Lles yng
Nghymru**

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Darren Millar (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Mohammad Asghar

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Jocelyn Davies

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Mike Hedges

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Sandy Mewies

Llafur Cymru
Delyn



Julie Morgan

Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Jenny Rathbone

Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod cantynol hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



William Graham

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain de Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
1. Cyflwyniad	9
Termau Craffu	10
Dull gweithredu'r Pwyllgor.....	11
2. Trosolwg o'r Ymatebion	12
Lliniaru'r effaith	12
Data.....	13
Barn y Pwyllgor.....	13
3. Argaeledd tai.....	16
Cynyddu'r cyflenwad	17
Addasiadau ar gyfer tenantiaid ag anableddau	18
Darpariaeth tai arall.....	20
Barn y Pwyllgor.....	21
4. Dyraniadau a mynediad i dai cymdeithasol.....	23
Taliadau ac asesiadau ymlaen llaw	23
Trosglwyddiadau	24
Achosion o droi allan.....	25
Barn y Pwyllgor.....	26
5. Gwasanaethau cyngori	28
Barn y Pwyllgor.....	30
6. Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn	32
Anghysondeb	34
Tenantiaid ag anableddau	34
Fframwaith Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn	35
Barn y Pwyllgor.....	36
7. Yr heriau yn y dyfodol	38
Credyd Cynhwysol.....	38

Newidiadau eraill.....	39
Barn y Pwyllgor.....	40
Atodiad A: Tystion	41

Rhagair y Cadeirydd

Yn groes i arfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r adroddiad hwn yn trafod goblygiadau polisi nad ydyw wedi'i ddatganoli a'i effaith ar wasanaethau datganoledig. Mae lleihau'r gost gyffredinol sydd ynghlwm wrth les wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth San Steffan wrth leihau'r diffyg cyhoeddus, ac mae hynny wedi arwain at newidiadau sylfaenol i'r system fudd-daliadau a goblygiadau sylweddol i'r sector tai yng Nghymru.

Mae cael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr wedi ysgogi darparwyr tai cymdeithasol i ddarparu tai sy'n ymateb yn well i'r sefyllfa gyfredol o ran budd-daliadau ac sy'n diwallu anghenion tenantiaid mewn modd mwy priodol. Mae hefyd angen sicrhau bod tenantiaid tai cymdeithasol yn cael digon o wybodaeth am sut y bydd newidiadau'n effeithio arnynt, i'w grymuso i wneud y penderfyniadau gorau er eu lles nhw a'u teuluoedd.

Mae datganoli'r broses o wneud penderfyniadau yn y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn anoddach cael darlun llawn o effaith penderfyniadau polisi. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn trafod rhai enghreifftiau o roi penderfyniadau polisi ar waith lle roedd y gost i'r pwrs cyhoeddus, o bosibl, yn fwy na'r arbedion a ddisgwyliwyd gan y rhai a wnaeth y penderfyniadau.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a darparwyr cyngor wedi addasu i heriau'r gyfundrefn les newydd, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion sydd â'r nod o wella eu hymateb i newidiadau yn y dyfodol a sicrhau eu bod yn fwy parod i wynebu'r effeithiau cysylltiedig.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi chwarae rôl fwy arweiniol er mwyn sicrhau bod cyrff yng Nghymru yn deall y canlyniadau yn sgil diwygio lles ac yn gallu ymateb iddynt yn well, fel y gallai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol gefnogi eu tenantiaid.

Ond p'un a yw cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi'r newidiadau i'r system les ai peidio, mae cyfrifoldeb arnynt i ymateb i'r newidiadau, a hynny mewn modd effeithlon, gan barhau i wasanaethu'r cyhoedd hyd eithaf eu gallu. Yn y pen draw, pan fo anghydfodau gwleidyddol neu'r methiant i gydweithio neu ymateb yn ddigon cyflym i newidiadau yn amharu ar y gwasanaethau a ddarperir, tenantiaid cymdeithasol a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas sy'n dioddef.

Darren Millar AM
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth i reoli effaith diwygio lles lle mae wedi arwain at leihau taliadau lles yng Nghymru. Dylai hyn nodi arferion gorau, darparu arweinyddiaeth gydlynol a gwella cysondeb rhwng y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector ar gyfer ymdrin â diwygio lles. (Tudalen 14)

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o opsiynau a ystyriwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar gyfer ymateb i ddiwygio lles. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost/budd o liniaru effaith lawn diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy daliadau tai yn ôl disgrisiwn, fel y dewisodd Llywodraeth yr Alban ei wneud. (Tudalen 14)

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn gwerthuso data allweddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â:

- proffil y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai yng Nghymru;
- diffygion rhent;
- costau casglu dyledion;
- atgyfeiriadau i fanciau bwyd a gwasanaethau cynghori;
- nifer yr asesiadau gallu ariannol a wneir;
- gwybodaeth gan denantiaid am effaith bersonol diwygio lles.

Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr hefyd er mwyn nodi faint o denantiaid sydd wedi symud neu golli eu cartref, wedi trosglwyddo i eiddo tai cymdeithasol arall neu i'r sector rhentu preifat, ac nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai mwyach. (Tudalen 15)

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer modelu ar broffil y farchnad tai cymdeithasol a'i hanghenion yn y dyfodol. (Tudalen 22)

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad cost/budd o ddarparu Taliadau Tai yn ôl Disgrisiwn i denantiaid ag anabledau mewn cartrefi a addaswyd yn sylweddol. (Tudalen 22)

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r defnydd o eiddo gwag a'r nifer sy'n cael eu gwaredu. (Tudalen 22)

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ba mor gyffredin yw'r arfer o addasu tai cymdeithasol mwy o faint yn llety a rennir, ac a oes angen rheoleiddio er mwyn sicrhau bod safonau tai yn dderbyniol. (Tudalen 22)

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith yr asesiadau gallu ariannol ac yn gwneud gwaith ymchwil i broffil yr ymgeiswyr sy'n methu'r asesiadau hyn. (Tudalen 26)

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau na all landlordiaid cymdeithasol atal tenantiaid rhag trosglwyddo i eiddo llai os oes ganddynt ôl-ddyledion sydd wedi codi o ganlyniad i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr. (Tudalen 26)

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o achosion o droi allan o dai cymdeithasol a'r canlyniadau i aelwydydd ar ôl i hynny ddigwydd. (Tudalen 27)

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisiau ar gyfer landlordiaid tai cymdeithasol a rhoi canllawiau i sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu cynorthwyo, waeth faint o fodd ariannol sydd ganddynt. (Tudalen 27)

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cynnig ariannu tymor hwy i'r sector gwasanaethau cynghori er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau'n fwy effeithiol. (Tudalen 31)

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn gwerthuso cydbwysedd y cyngor a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol a gwasanaethau annibynnol, gan gynnwys cynnal arolwg o denantiaid i nodi sut maent yn defnyddio'r gwasanaethau cynghori a'r arbedion a wneir yn sgil defnyddio gwasanaethau cynghori. Dylai hyn hefyd gynnwys gwerthusiad o'r gwasanaethau a gollwyd o ganlyniad i roi llai o gyllid i wasanaethau cynghori. (Tudalen 31)

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn arfer mwy o ddylanwad er mwyn sicrhau dull cyson o ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgrisiwn ledled Cymru. (Tudalen 37)

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cyhoeddi'r nifer sy'n manteisio ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn yng Nghymru, gan gynnwys sut mae awdurdodau lleol a landlordiaid

cymdeithasol yn rhoi gwybod i denantiaid am argaeledd taliadau a'r wybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus. (Tudalen 37)

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob awdurdod lleol a chymdeithas dai yn rhoi cyhoeddusrwydd i daliadau tai yn ôl disgresiwn, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd cysylltiedig. Dylent hefyd sicrhau nad yw budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau incwm, ac esbonio pam nad ydynt wedi defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn lle y bo hynny'n briodol. (Tudalen 37)

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn gynnar ar effaith debygol y newidiadau yn y system les, gan gynnwys y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer cymhwysedd Budd-dal Tai ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed, ac yn ymgynghori'n gynnar ac yn eang ar ei hymateb arfaethedig. (Tudalen 40)

1. Cyflwyniad

1. Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ('yr Archwilydd Cyffredinol') adroddiad yn dwyn y teitl *Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru*.¹ Roedd yr adroddiad yn ymchwilio i effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru a chanfu fod y newidiadau i Fudd-dal Tai a gyflwynwyd gan y rhaglen diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar gynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru, a oedd yn ei chael hi'n anodd darparu atebion effeithiol a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

2. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod Deddf Diwygio Lles 2012² yn newid sylweddol i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu. Hwn oedd y cam mawr cyntaf mewn agenda ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn erbyn 2017.

3. Prif ffocws diwygiadau Llywodraeth y DU a gwmpaswyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol oedd y newidiadau i Fudd-dal Tai. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r niferoedd sy'n hawlio Budd-dal Tai ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd yng Nghymru o bump y cant o 156,388 ym mis Chwefror 2009 i 164,376 ym mis Chwefror 2014. Er nad yw lles wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, mae canlyniad diwygio lles yn effeithio ar lawer o wasanaethau cyhoeddus datganoledig.

4. Mae'r prif ddiwygiadau lles sy'n effeithio ar denantiaid tai cymdeithasol fel a ganlyn:

- diddymu'r³ cymhorthdal ystafell sbâr (a alwyd yn 'dreth ystafell wely') - o fis Ebrill 2013, bu gostyngiad canrannol sefydlog ym Mudd-dal Tai tenantiaid tai cymdeithasol o oedran gweithio a chanddynt un ystafell wely sbâr neu fwy, sef 14% i rai a chanddynt un ystafell sbâr a 25% i rai a chanddynt ddwy ystafell sbâr neu fwy;
- y cap ar fudd-daliadau aelwydydd - gosod terfyn ar fudd-daliadau y gall aelwydydd di-waith o oedran gweithio eu hawlio;
- Credyd Cynhwysol - cyflwyno un budd-dal integredig misol ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio, i gynnwys y rhai sy'n gweithio a'r rhai

¹ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - [Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru](#), Ionawr 2015

² [Deddf Diwygio Lles 2012](#) (Saesneg yn Unig)

³ Weithiau cyfeirir at ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr fel y dreth ystafell wely. Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddiwyd y datganiad cyntaf. Disgrifir aelwydydd ag ystafell sbâr fel rhai sy'n 'tanfeddiannu', a defnyddir y term hwn hefyd yn yr adroddiad hwn.

sy'n ddi-waith, a delir yn uniongyrchol i hawlwyr. Mae hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd, a chaiff ei gyflwyno'n raddol rhwng nawr a 2017;

- newidiadau a thoriadau i gymorth ar gyfer y Dreth Gyngor, gan gynnwys datganoli pŵer i awdurdodau lleol ddylunio a gweinyddu'r budd-dal hwn.

5. O'r pedwar newid hyn, yr un mwyaf amlwg yng Nghymru hyd yma fu diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, ac roedd llawer o waith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar hyn.

6. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y newidiadau i Fudd-dal Tai yn effeithio ar gyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru o gymharu â'r Alban neu Loegr. Roedd cynlluniau ac ymdrechion Awdurdodau Lleol i helpu tenantiaid tai cymdeithasol yn anghyson a phrin oedd eu heffaith o ran helpu tenantiaid i reoli effaith diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Roedd diwygio lles yn arwain at wariant ychwanegol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, ac mae risgiau pellach yn debygol o ddeillio o newidiadau yn y dyfodol.

7. Ymatebodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a'i argymhellion, gan ganolbwyntio ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo llywodraeth leol wrth ymateb i ddiwygio lles.⁴

8. Ar 3 Chwefror 2015, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal ymchwiliad i effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru.

Termau Craffu

9. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y canlynol fel rhan o'i ymchwiliad:

- Gwerth am arian:

- Cadernid asesiadau effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys y fethodoleg a thystiolaeth o arbedion/costau sy'n deillio o'r newidiadau;
- Cost rheoli effaith diwygio lles i Lywodraeth Cymru, y trydydd sector, llywodraeth leol a chymdeithasau tai.

- Cyngor a Chymorth i denantiaid:

⁴ PAC(4)-04-15, 03 Chwefror 2015

- Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu ag anghenion tenantiaid y mae'r cymhorthdal ystafell sbâr/cap budd-daliadau yn effeithio arnynt ac yn ymateb i'r anghenion hynny;
 - Ansawdd/effeithiolrwydd y cyngor a roddir i denantiaid gan y trydydd sector ac awdurdodau lleol;
 - Gallu tenantiaid i gael mynediad i TGCh, a chymorth i gynyddu mynediad iddo;
 - Effeithlonrwydd a thegwch cyffredinol system apelio Awdurdodau Lleol, gan gynnwys costau, rheolaeth a chymharu'r system â phrosesau Cymdeithasau Tai Lloegr. Ni fyddai hyn yn golygu ystyried achosion unigol.
- Argaeledd tai amgen, y ddarpariaeth a'i heffaith:
- Lefel y stoc tai 1 a 2 ystafell wely, gan gynnwys maint a fforddiadwyedd rhaglenni datblygu cymdeithasau tai;
 - Effaith ôl-ddyledion rhent ar allu tenantiaid i symud i eiddo mwy priodol o dan y trefniadau newydd;
 - Effaith y newidiadau ar aelwydydd eraill sydd ag anghenion tai sy'n chwilio am dai cymdeithasol - pobl ddigartref, twf mewn rhestrau aros, er enghraifft;
 - Y defnydd o'r sector rhentu preifat.
- Paratoi ar gyfer newid:
- Pa mor effeithiol y mae llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a chymdeithasau tai lleol wedi paratoi ar gyfer newidiadau sy'n gysylltiedig â Diwygio Lles.

Dull gweithredu'r Pwyllgor

10. Cynhaliodd y Pwyllgor bum sesiwn tystiolaeth lafar gyda thystion a oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, grwpiau sy'n ymwneud â thai, darparwyr cyngor a grwpiau cynrychioliadol. Ceir rhestr lawn o dystion yn Atodiad A.

11. Mae'r adroddiad canlynol yn manylu ar gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd at yr ymchwiliad.

2. Trosolwg o'r Ymatebion

12. Cyn ystyried gwahanol agweddau ar yr ymateb, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gymryd trosolwg o'r dull a fabwysiadwyd yng Nghymru tuag at weithredu'r newidiadau i'r system les. Un o'r camau cynnar a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru oedd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles.⁵ Bwriad hwn oedd cydgysylltu'r ymateb i'r newidiadau mewn budd-daliadau ar draws y Llywodraeth.

Lliniaru'r effaith

13. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod Llywodraeth yr Alban wedi gwrthbwysu'r gost i denantiaid yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, ond yng Nghymru roedd Llywodraeth Cymru yn benderfynol o beidio ag ysgwyddo cost uniongyrchol gwrthbwysu toriadau lles.⁶

14. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i gwmpasu'r gostyngiad yn y cymorth ar gyfer y dreth gyngor gan Lywodraeth y DU ochr yn ochr â throsglwyddo budd-dal y dreth gyngor i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, ac i awdurdodau lleol yn Lloegr. Roedd hyn y cyllid hwn yn debyg i'r cyllid ar gyfer diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.

15. Gan gydnabod bod gan Lywodraeth yr Alban setliad ariannu fwy hael na Llywodraeth Cymru, gofynnodd y Pwyllgor pa ystyriaeth, os o gwbl, a roddodd Llywodraeth Cymru i gost bosibl gwrthbwysu diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Yn ddamcaniaethol, gallai hyn fod wedi bod yn is na'r gost ehangach i'r pwrs cyhoeddus yn sgil diddymu'r cymhorthdal. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud nad oedd y dull o wrthbwysu diddymu'r cymhorthdal wedi'i flaenoriaethu gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ddiwygio lles.⁷

16. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gost o wrthbwysu diddymu'r cymhorthdal wedi bod oddeutu £22m y flwyddyn,⁸ a byddai hynny wedi bod yn gost gylchol. Yn lle hynny penderfynodd Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiad yn y gwaith o adeiladu eiddo llai a darparu gwasanaethau cynghori, gyda'r disgwyliad y byddai'r rhain yn ymateb mwy cyson a pharhaol i'r mater.

⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 02 Mehefin, 2015

⁶ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 02 Mehefin 2015

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 02 Mehefin 2015

Data

17. Hysbyswyd y Pwyllgor bod diffyg data cadarn ar gael pan ddechreuodd y broses diwygio lles. Er enghraifft, roedd cofnodion rhai landlordiaid yn anghyflawn ac nid oeddent yn adlewyrchu'n gywir gyfansoddiad aelwyd y tenant neu faint yr eiddo, a byddai hynny'n arwain at oblygiadau i lefel y Budd-dal Tai a fyddai ar gael i'r tenant.⁹

18. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr asesiadau effaith a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer nifer o agweddau ar y Ddeddf Diwygio Lles yn rhy syml, yn anghyson ac yn aml yn seiliedig ar dystiolaeth gyfyngedig.¹⁰ Ar ben hynny, roedd yr arbedion disgwylidig yn cael eu cyfrifo mewn ffordd sylfaenol iawn ac nid ydynt yn ystyried effaith dewisiadau tenantiaid ar y bil Budd-dal Tai cyffredinol.¹¹

19. Cynhyrchodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru swm sylweddol o ddata ar effaith debygol yr agenda diwygio lles mewn adroddiadau a gyhoeddwyd mewn tri tranche yn 2013. Roedd hyn yn ddefnyddiol o ran caniatáu i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r heriau a wynebir.

20. Ni pharhawyd â'r broses gychwynol o gynhyrchu data, a chlywodd y Pwyllgor bryderon fel a ganlyn:¹²

“there is still much inconsistency going on in approaches to dealing with Welfare Reform and this is demonstrated by key data not being collected and therefore it appears to be difficult to gain a true picture of the current situation and also the challenges ahead if risks are not being correctly identified.”

Barn y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn dangos arweiniad o ran cynnull y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddeall effaith bosibl diwygio lles. Wedi dweud hynny, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe byddai mwy o flaenoriaeth wedi'i rhoi i ddatblygu rhaglenni gwaith a fyddai'n mynd i'r afael ag effaith diwygio lles ar denantiaid yng Nghymru. Mae gwahaniaeth rhwng deall maint yr her a chymryd camau i liniaru ei heffaith.

⁹ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

¹⁰ PAC(4)-13-15 Papur 3 a PAC(4)-13-15, 12 Mai 2015

¹¹ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

¹² PAC(4)-14-15 papur 1, 19 Mai 2015

22. Er yr ymddengys mai dim ond teirgwaith y cyfarfu'r Grŵp yn 2013, nid yw'n glir a barhaodd i weithredu fel rhwydwaith a byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Grŵp hwnnw wedi parhau i gwrdd, ac i ddeall effaith wirioneddol yr agenda diwygio lles wrth iddi barhau i ddatblygu.

23. Er bod y Pwyllgor yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i dalu'r diffyg a achoswyd gan benderfyniadau sydd heb eu datganoli, ar wahân i gymorth y dreth gyngor, byddai o gymorth i ddeall i ba raddau yr ystyriwyd yr opsiwn i wrthbwysu diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, ac a gafodd ei gyflwyno i Weinidogion er mwyn penderfynu arno.

24. O ystyried y pryderon am y data sydd ar gael, a diffyg arweinyddiaeth gyson, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy rhagweithiol wrth gydgysylltu ymateb Cymru i'r agenda diwygio lles. Dylai hyn gynnwys casglu a gwerthuso data allweddol gan Lywodraeth y DU, landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddeall proffil y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai, maint y diffygion rhent, costau casglu dyledion, y nifer sy'n defnyddio banciau bwyd a gwasanaethau cynghori, a nifer yr asesiadau o allu ariannol a wnaed (a drafodir isod).

25. Gan nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal arolwg o denantiaid tai cymdeithasol i gefnogi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, byddai'r Pwyllgor yn cefnogi mwy o ymdrechion i ddeall ymatebion personol tenantiaid i'r heriau sy'n codi yn sgil diwygio lles.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth i reoli effaith diwygio lles lle mae wedi arwain at leihau taliadau lles yng Nghymru. Dylai hyn nodi arferion gorau, darparu arweinyddiaeth gydlynol a gwella cysondeb rhwng y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector ar gyfer ymdrin â diwygio lles.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o opsiynau a ystyriwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar gyfer ymateb i ddiwygio lles. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost/budd o liniaru effaith lawn diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy daliadau tai yn ôl disgrisiwn, fel y dewisodd Llywodraeth yr Alban ei wneud.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn gwerthuso data allweddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas â:

- proffil y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai yng Nghymru;**
- diffygion rhent;**
- costau casglu dyledion;**
- atgyfeiriadau i fanciau bwyd a gwasanaethau cynghori;**
- nifer yr asesiadau gallu ariannol a wneir;**
- gwybodaeth gan denantiaid am effaith bersonol diwygio lles.**

Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr hefyd er mwyn nodi faint o denantiaid sydd wedi symud neu golli eu cartref, wedi trosglwyddo i eiddo tai cymdeithasol arall neu i'r sector rhentu preifat, ac nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai mwyach.

3. Argaeledd tai

26. Mae rhaglen diwygio Lles Llywodraeth y DU wedi ceisio rhesymoli'r defnydd o dai cymdeithasol fel nad yw tenantiaid tai cymdeithasol yn 'tanfeddiannu' eiddo. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn asesu argaeledd tai cymdeithasol a allai gynnwys y rhai sy'n derbyn budd-dal tai yr ystyrir eu bod yn tanfeddiannu.

27. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y byddai angen i dros 30,000 o aelwydydd symud i eiddo llai o faint er mwyn eu hatal rhag "tanfeddiannu",¹³ bod gan dros bedair rhan o bump o'r rheini un ystafell wely sbâr, a bod gan y gweddill ddwy ystafell sbâr neu fwy. Roedd yn amlwg o wrando ar y tystion bod y lefel bresennol o eiddo llai o faint yn annigonol i ddiwallu'r galw, gydag un tyst yn awgrymu bod angen eiddo llai ar 70 o aelwydydd ar gyfer pob un sydd ar gael.¹⁴

28. Clywodd y Pwyllgor nad oedd darparwyr tai cymdeithasol, yn hanesyddol, wedi ceisio darparu llawer iawn o gartrefi un neu ddwy ystafell wely, gan awgrymu nad ydynt yn gynaliadwy o ran creu cymunedau cynaliadwy a chaniatáu i deuluoedd symud i mewn ac ymsefydlu yno.¹⁵ Mae hyn yn enghraifft o wahaniaeth clir ym mholisi'r DU a Llywodraeth Cymru: yng Nghymru, mae Llyfr Patrwm Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid adeiladu yn unol â'r egwyddor cartrefi am oes. Gall hyn olygu mwy o gost i ddechrau, ond byddai'n galluogi addasu'n gymharol rad yn y dyfodol. Yn Lloegr, rhoddir mwy o bwys ar gost gychwynnol tai, sy'n golygu nad yw tai newydd yn cael eu datblygu i'r un safon ansawdd.

29. Dywedodd TPAS Cymru wrth y Pwyllgor fod tenantiaid yn hanesyddol yn tanfeddiannu eu heiddo er mwyn "tyfu i mewn iddynt" - h.y. drwy gael ystafelloedd ychwanegol ar gyfer yr adeg pan fyddant yn cael plant,¹⁶ neu pan fydd eu bywydau'n newid a phan fydd angen ystafell wely ychwanegol arnynt ar gyfer offer a chymorth arbenigol. Roedd yn awgrymu yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, bod dyheadau ac anghenion tenantiaid wedi newid, a bod y galw am ystafell sbâr i'w defnyddio'n achlysurol wedi lleihau.¹⁷

¹³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: [Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru](#), tudalen 50, Ionawr 2015

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 12 Mai 2015

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 12 Mai 2015

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 19 Mai 2015

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 19 Mai 2015

30. Nododd y Pwyllgor fod landlordiaid cymdeithasol wedi ymateb i'r agenda diwygio lles fel her tymor byr-i-ganolig. Nid yw'r dulliau hanesyddol o seilio datblygiadau ar gartrefi mwy o faint y gallai tenantiaid dyfu i mewn iddynt wedi newid. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd i uchelgais yr agenda diwygio lles y dylai tenantiaid yn defnyddio tai cymdeithasol sy'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion presennol, yn hytrach na'u hanghenion posibl yn y dyfodol.

Cynyddu'r cyflenwad

31. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol llai. Roedd hyn yn cynnwys £20 miliwn yn 2013-14 - sy'n cyfateb i 375 o unedau, ac £20 miliwn arall yn 2014-15 a 2015-16.¹⁸ Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai landlordiaid cymdeithasol yn gallu parhau â'r gwaith o ddatblygu eiddo llai gyda Llywodraeth Cymru yn nodi bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn dod yn agos at eu terfynau benthyca.¹⁹

32. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod landlordiaid cymdeithasol yn araf i ymateb i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, a chanfu ei arolwg o gynghorau a chymdeithasau tai mai dim ond hanner y sefydliadau a oedd wedi newid eu rhaglen datblygu Grant Tai Cymdeithasol i ddatblygu tai llai o faint.²⁰ Canfu ei adroddiad fod landlordiaid tai cymdeithasol yn ystyried bod cartrefi un ystafell wely yn ateb anhyblyg ac aneffeithiol.²¹

33. Wrth ymchwilio i'r farn hon, clywodd y Pwyllgor fod rhywfaint o bryder yn y sector y gallai fod anawsterau yn y tymor hir pe bai proffil tai cymdeithasol yn gogwyddo yn rhy bell tuag at eiddo llai, ac y gallai Llywodraeth newydd yn y DU wrthdroi'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.²² Dywedodd Shelter Cymru nad yw tai un a dwy ystafell wely yn gartrefi am oes,²³ a chytunodd Llywodraeth Cymru fod anawsterau wrth rag-weld anghenion tai yn y dyfodol,²⁴ sy'n awgrymu y bydd y drefn o ddarparu cartrefi mwy o faint "gydol oes" yn parhau o bosibl.

¹⁸ PAC(4)-04-15 Papur 5, 03 Chwefror 2015

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 02 Mehefin 2015

²⁰ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: [Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru](#), tudalen 50, Ionawr 2015

²¹ Ibid

²² PAC(4)-13-15 papur 2, 12 Mai 2015

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 285, 12 Mai 2015

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 02 Mehefin 2015

Addasiadau ar gyfer tenantiaid ag anableddau

34. Clywodd y Pwyllgor fod gan nifer fawr o denantiaid y mae diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio arnynt anableddau,²⁵ a bod cyfran sylweddol - hyd at un o bob deg - o denantiaid sy'n tanfeddiannu yn byw mewn cartrefi gydag addasiadau sylweddol.²⁶ Yn aml roedd y tenantiaid hyn naill ai'n gorfod aros yn hwy am eiddo priodol, neu'n fwy amharod i symud, gan eu hamlygu o bosibl i ddiffyg tymor hwy mewn rhent, fel y nodir gan Denantiaid Cymru:²⁷

“that is my experience – they’ve taken the hit, if you like, and... don’t want this change at their time of life, and therefore are willing to sacrifice other things for that, including additional care.”

35. Roedd tystion eraill yn teimlo y gallai talu'r diffyg hwn roi tenantiaid ag anableddau mewn sefyllfa ariannol fregus, gan olygu eu bod yn methu ag ymdrin ag argyfyngau sy'n gofyn am wariant annisgwyl.²⁸

36. Ar wahân i'r trallod posibl i denantiaid, roedd y Pwyllgor yn bryderus efallai y bydd cost anghymesur i'r pwrs cyhoeddus pe bai tenantiaid ag anableddau yn cael eu hadleoli o eiddo wedi'i addasu ar gyfer eu hanghenion, ac y gallai talu diffyg mewn rhent fod yn fwy costeffeithiol na chael gwared ar addasiadau o un eiddo ac addasu eiddo llai.

37. Yn ôl Shelter Cymru:²⁹

“adaptations are a good example of one of these instances where the money-saving aspects of welfare reform could potentially spiral quite out of control because adaptations are very expensive to do. If people are moving between social housing, having to get them all done again, having to get them ripped out—. I mean, with social landlords, at the moment, there isn't a requirement on them to report on the number of adaptations that get taken out of properties, so I'm conscious that, sometimes, it's because that money isn't necessarily coming from the RSL but might be coming from the local authority adaptation service.”

38. Dyfynnodd Cartrefi Cymunedol Cymru Gymdeithas Tai Wales and West a awgrymodd y byddai mwy na £40 miliwn o arian cyhoeddus yn cael ei

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 132, 12 Mai 2015

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 313, 19 Mai 2015

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 19 Mai 2015

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 19 Mai 2015

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 12 Mai 2015

wastraffu yng Nghymru o ganlyniad i ddi-ddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr i bobl anabl sy'n byw mewn eiddo wedi'i addasu'n arbennig.³⁰ Disgrifiwyd maint y broblem i'r Pwyllgor:³¹

“It’s an area that we felt really strongly about... our experience is that about 10 per cent, about 1 in 10, of people who are under occupying have got a substantially adapted home. We’re in a similar position where those people haven’t moved—they’re still there—but the cost to the public purse in adapting those homes, we found, was around £7,000 a home. If people move from there, then that money is lost. Then you would have to adapt a new home for them to move to, which would cost an amount of money again that a physical adaptation grant would pay for out of the public purse, and often you can’t re-use the adaptations because they’re so specific to individuals. It’s very hard to re-let then to somebody else, so you end up with a big cost in order to save that amount from removing the spare room subsidy. It will never pay for it. There aren’t those smaller homes to move to. We’ve a number of places where the actual homes people are in, where they’re under occupying, we built it for them. You know, it’s specifically for their needs, and their support is set up, and they’re living sustainable, good lives.”

39. Gan wybod y gallai adleoli pobl o eiddo sydd wedi'i addasu ar gyfer eu hanghenion penodol fod yn aneffeithlon, dywedodd Cartrefi NPT wrth y Pwyllgor eu bod wedi defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i sicrhau y gallai tenantiaid ag anableddau aros yn yr eiddo a addaswyd ar eu cyfer. Fodd bynnag, taliadau tymor byr yw Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Nid ydynt wedi'u bwriadu i gael eu talu am byth, ond yn hytrach i helpu teuluoedd i ddod o hyd i atebion mwy cynaliadwy o ran tai. Er bod iddo rywfaint o werth, nid yw dull Cartrefi NPT yn opsiwn cynaliadwy.

40. Caiff defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ei drafod ymhellach isod, ond roedd yn amlwg nad oedd yr arfer yn gyson ledled Cymru. Roedd rhai tenantiaid yn derbyn Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yng Nghymru ar sail eu hanabledd, ac mae rhai wedi'u gwrthod, yn seiliedig ar yr incwm a dderbyniwyd mewn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

³⁰ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 313, 19 Mai 2015

Darpariaeth tai arall

41. Er mwyn goresgyn y diffyg yn y cyflenwad o eiddo llai, roedd rhai landlordiaid yn bwriadu addasu'r stoc bresennol, ac roedd rhai tenantiaid yn debygol o symud i'r sector rhentu preifat.

42. Clywodd y Pwyllgor na fyddai symud tenantiaid i'r sector rhentu preifat yn gosteffeithiol ar gyfer naill ai'r tenant na'r Adran Gwaith a Phensiynau. Drwy gymharu'r sectorau tai cymdeithasol a phreifat ym Merthyr Tudful, awgrymwyd bod costau budd-dal tai yn y sector rhentu preifat tua thraean yn uwch nag y byddent yn y sector tai cymdeithasol, sy'n golygu mwy o gost i'r trethdalwr.³²

43. Dim ond cyfran fach o eiddo yn y sector rhentu preifat a fyddai'n ymarferol ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal tai, a rhoddir yr enghraifft o 12 y cant o'r sector rhentu preifat ym Merthyr Tudful.³³ Nododd Cyngor ar Bopeth Cymru fod y tai sydd ar gael yn y sector preifat yn cynnwys rhai o'r tai gwaethaf yng Nghymru, gyda thenantiaid yn y sector preifat ddwywaith yn fwy tebygol o fod angen cymorth gan Cyngor ar Bopeth.³⁴ Nododd Tenantiaid Cymru fod y sector rhentu preifat yn cynnig llai o sicrwydd i denantiaid ac eiddo o safon is ar gost uwch, ac roedd tenantiaid weithiau'n gyndyn i'w ddefnyddio, gan ddewis aros yn eu cartrefi presennol ar gost bersonol sylweddol.³⁵

44. Clywodd y Pwyllgor fod tai cymdeithasol mwy o faint yn dod yn fwy anodd eu gosod, a bod nifer yr eiddo gwag tymor hwy yn cynyddu. Nododd Cymunedau Tai Cymru fod 700 o dai newydd wedi'u gadael yn wag yn y flwyddyn gyntaf ar ôl diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.³⁶ Nododd CIH Cymru (y Sefydliad Tai Siartredig) fod anawsterau yn codi wrth osod eiddo 3 ystafell wely. Mae'n bosibl y gallai fod cyfran sylweddol o'r cyflenwad tai nad yw'n cael ei defnyddio ac felly nid yw'n diwallu anghenion y miloedd lawer o deuluoedd sydd angen tai cymdeithasol, nac yn darparu unrhyw fudd i bwrs y wlad.

45. Gan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi defnyddio data ar landlordiaid tai cymdeithasol i ganfod nifer yr ystafelloedd gwely mewn eiddo, ac felly i ganfod a oedd yn cael ei danfeddiannu, gofynnodd y

³² PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

³³ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

³⁴ PAC(4)-13-15 papur 4, 12 Mai 2015

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 19 Mai 2015

³⁶ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

Pwyllgor a oedd modd i'r landlord ailddynodi eiddo drwy ddiffinio ystafell fel ystafell fwyta, er enghraifft. Ymatebodd Cartrefi NPT gan ddweud:³⁷

“It’s an option, but I think it’s something that people have got to be wary of, because if they have taken housing benefit on a property at a three-bedroomed rent for, say, the last 20 years, and they then redesignate it to a two-bedroomed, there is always the risk that DWP will come back and say, ‘Then we want the difference in the rent’, because if it was always a two-bedroomed property and you haven’t made any significant changes to it, then you have been overcharging housing benefit for that time.”

46. Fel cam pellach, clywodd y Pwyllgor fod enghreifftiau o eiddo sy'n cael eu haddasu er mwyn lleihau nifer yr ystafelloedd gwely, yn enwedig pan fydd un ystafell wely a nodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel ystafell sbâr yn fach.³⁸ Gallai hyn fod yn ymateb mwy cost-effeithiol i leihau nifer yr eiddo gydag ystafelloedd gwely sbâr, ond gall leihau'r defnydd hyblyg hirdymor o'r eiddo.

47. O ystyried yr angen cynyddol am eiddo llai, a lleihad cyfatebol yn y galw am dai mwy o faint, roedd rhai landlordiaid yn addasu cartrefi teuluol yn llety a rennir.³⁹

48. Er y byddai addasu eiddo mwy yn dai amlfeddiannaeth yn y sector preifat yn golygu gorfod cydymffurfio â safonau gofynnol o dan Ddeddf Tai 2004, mae landlordiaid cymunedol yn esempt. Roedd rhai pryderon y gallai'r broses hon, felly, olygu bod eiddo o safon is ar gael a thwf mewn llety is na'r safon. Yn ogystal, amlygodd Shelter Cymru bryderon ynghylch pwy a fyddai'n cael eu cartrefu gyda'i gilydd mewn llety a rennir,⁴⁰ sy'n llety nad yw'n briodol i bob grŵp o bobl.

Barn y Pwyllgor

49. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'w pholisi o ran y cymhorthdal ystafell sbâr. Hyd yn oed o ystyried nifer y cartrefi llai ychwanegol y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu yn ystod y pum mlynedd nesaf, mae dal yn debygol y bydd diffyg amlwg yn y cyflenwad o eiddo 1 a 2 ystafell wely.

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 338, 19 Mai 2015

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 19 Mai 2015

³⁹ PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

⁴⁰ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer modelu ar broffil y farchnad tai cymdeithasol a'i hanghenion yn y dyfodol.

50. Er nad yw'r Pwyllgor wedi gallu canfod nifer y tenantiaid anabl y bu'n ofynnol iddynt symud oherwydd y cymhorthdal ystafell sbâr, rydym yn bryderus y gall tenantiaid anabl sy'n tanfeddiannu wynebu anawsterau penodol lle maent yn byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu'n sylweddol. Mae costeffeithiolrwydd adleoli yn aneglur, ac mae ymarfer anghyson ar draws Cymru. Byddai'n ddefnyddiol gwerthuso'n gadarn gostau a manteision defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i ganiatáu i denantiaid ag anabledau aros yn eu cartrefi. Gallai hyn ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer deall effaith tynnu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn ôl, sef yr hyn a fydd yn digwydd yn y pen draw.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad cost/budd o ddarparu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i denantiaid ag anabledau mewn cartrefi a addaswyd yn sylweddol.

51. Mae argaeledd eiddo mwy o faint sy'n cael ei adael yn wag yn destun pryder, a gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i nodi nifer yr eiddo gwag ac i ddarparu cymorth i landlordiaid tai cymdeithasol ar ffurf briodol er mwyn lleihau nifer yr eiddo gwag - drwy eu haddasu, eu gosod ar lefelau rhent y farchnad, neu eu gwerthu er mwyn cynhyrchu incwm ar gyfer darpariaeth tai arall.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r defnydd o eiddo gwag a'r nifer sy'n cael eu gwaredu.

52. Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynghylch y dystiolaeth anecdotaidd o addasu eiddo mwy yn dai amlfeddiannaeth is na'r safon. Nid yw'n glir a yw hyn yn arfer cyffredin. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba raddau y mae hyn yn digwydd, ac a yw'r anghysondeb rhwng y rheoliadau ar y sector rhentu preifat a thai cymdeithasol yn arwain at ddarparu tai gwael.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ba mor gyffredin yw'r arfer o addasu tai cymdeithasol mwy o faint yn llety a rennir, ac a oes angen rheoleiddio er mwyn sicrhau bod safonau tai yn dderbyniol.

4. Dyraniadau a mynediad i dai cymdeithasol

53. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn dweud bod tai cymdeithasol yn dod yn llai hygyrch i grwpiau penodol o bobl, ac nad oedd bob amser yn hawdd i denantiaid a oedd yn tanfeddiannu i symud i eiddo llai o faint. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd mewn gwybod a oedd diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi cynyddu nifer yr achosion o droi allan ac, os felly, i ble roedd y tenantiaid yn symud.

Taliadau ac asesiadau ymlaen llaw

54. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio asesiadau gallu ariannol fwyfwy i fesur gallu darpar denantiaid i dalu rhent, a nododd Shelter Cymru fod asesiadau o'r fath yn cael eu defnyddio gan y rhan fwyaf o landlordiaid wrth osod eiddo i denantiaid newydd,⁴¹ ac mewn rhai achosion gofynnid i denantiaid am bedair wythnos o rent ymlaen llaw cyn cael tenantiaeth. Awgrymodd Shelter Cymru fod methu asesiad o'r fath neu fethu â darparu rhent ymlaen llaw yn golygu, i bob pwrpas, bod aelwyd yn rhy dlawd ar gyfer tai cymdeithasol.⁴²

55. Holodd y Pwyllgor landlordiaid am yr asesiadau hyn, a chlywodd eu bod yn rhan o ymdrechion landlordiaid i ddeall sefyllfaoedd ariannol eu tenantiaid, a thrafodir hyn yn fanylach isod. I bob pwrpas, roedd yr asesiadau'n cael eu defnyddio er mwyn osgoi creu sefyllfaoedd a fyddai'n peri i bobl fethu,⁴³ drwy ystyried costau rhedeg cartref. Byddai hyn yn golygu trafod eu gwariant tebygol gyda darpar breswylwyr, gan gynnwys cyfleustodau a chostau eraill, ac roedd hyn yn digwydd amlaf mewn achosion lle roedd darpar denantiaid yn byw gydag aelodau o'r teulu ac yn awyddus i symud i mewn i'w heiddo eu hunain.

56. Mae'n anodd asesu pa opsiynau a fyddai ar gael i aelwyd pe gwrthodid tŷ cymdeithasol iddi oherwydd iddi fethu asesiad ariannol neu oherwydd nad oedd modd iddi dalu rhent ymlaen llaw. Nid oes llawer o ddealltwriaeth o faint o aelwydydd y gwrthodwyd rhoi tenantiaeth iddynt ar sail asesiad o'r fath, neu pa wasanaethau y maent wedi mynd ymlaen i'w defnyddio a chost hynny.

⁴¹ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 12 Mai 2015

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 19 Mai 2015

Trosglwyddiadau

57. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall pa mor hawdd y gallai tenant symud i eiddo llai o faint, ac a allai ôl-ddyledion sy'n deillio o denantiaid yn methu â thalu'r gwahaniaeth yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr eu hatal rhag symud i eiddo llai o faint.

58. Clywodd y Pwyllgor gan Cartrefi NPT nad oedd diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi arwain at gynnydd cyffredinol mewn ôl-ddyledion yn eu hardal, a bod eu hól-ddyledion mewn gwirionedd gyda'r isaf mewn tair blynedd.⁴⁴ Roeddent yn credu mai eu hymdrechion i gynghori a chefnogi tenantiaid sy'n tanfeddiannu i addasu i'r gostyngiad mewn budd-dal tai oedd i'w gyfrif am hyn.

59. Yn unol â chasgliad yr Archwilydd Cyffredinol, clywodd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol wedi llacio eu polisi trosglwyddo i sicrhau bod tenantiaid a chanddynt ôl-ddyledion oherwydd y gostyngiad yn eu budd-daliadau tai yn gallu symud i eiddo llai o faint.

60. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd yn fodlon bod polisiau dyrannu yn golygu na allai unrhyw awdurdod wahardd tenant rhag trosglwyddo oherwydd bod ganddo ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i newidiadau mewn budd-dal tai. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddweud bod ei chanllawiau'n glir yn hyn o beth, gan nodi:⁴⁵

“People under-occupying social housing and wanting to transfer to a smaller property, particularly in light of Welfare Benefit changes and the under-occupancy charge. Households in this situation need detailed advice on their options to help prevent them falling into arrears if they cannot afford the extra rent if they are deemed to have a ‘spare room’ and cannot move immediately.”

61. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg byr o ddeg awdurdod, a oedd yn awgrymu bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i denantiaid a oedd yn tanfeddiannu ac yn awyddus i symud. Nid oedd yr arolwg yn awgrymu bod gan awdurdodau bolisiau ar waith a fyddai'n atal tenantiaid rhag symud o eiddo sy'n cael ei danfeddiannu, ond awgrymodd y byddai hyn yn cael ei adolygu.

62. Er mwyn cefnogi trosglwyddiadau gwirfoddol, clywodd y Pwyllgor fod House Swap Wales yn enghraifft o arfer da, lle y gall tenantiaid bostio

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 258, 19 Mai 2015

⁴⁵ PAC(4)-18-15 PTN5, 23 Mehefin, 2015

negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol i gyfnewid eu heiddo. Fodd bynnag, prin oedd y diddordeb ymhlith tenantiaid i dderbyn lletywyr er mwyn lleihau tanfeddiannu, gyda rhesymau teuluol a phryderon am ddiogelwch yn cael ei nodi fel enghreifftiau o pam y gall teuluoedd fod yn amharod i dderbyn lletywr.⁴⁶ Yn ogystal, ni fyddai derbyn lletywr o reidrwydd yn lleddfu sefyllfa ariannol aelwyd, gan y byddai'r incwm ychwanegol yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar Fudd-dal Tai. Dywedodd Tenantiaid Cymru, o ran tenantiaid sy'n ystyried derbyn lletywr, fod y risg yn uchel iawn a'r fantais yn fach iawn.⁴⁷

63. Ni welwyd cynnydd sylweddol yn nifer y trosglwyddiadau yn dilyn diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Dywedodd Tenantiaid Cymru mai dim ond cynnydd o un y cant yn unig a welwyd yn nifer y trosglwyddiadau rhwng 2010 a 2013, sy'n awgrymu bod symud i eiddo llai o faint er mwyn lleihau tanfeddiannu wedi cymryd peth amser i ddechrau o ddifrif.

64. Clywodd y Pwyllgor mai un o ganlyniadau'r cynnydd yn y galw am eiddo llai gan denantiaid cymdeithasol a oedd yn awyddus i symud i eiddo llai o faint, a'r flaenoriaeth a roddir i denantiaid presennol, oedd bod llai o eiddo ar gael ar gyfer pobl eraill ag anghenion tai, yn enwedig y rhai sy'n ddigartref. Yn 2013-14, roedd nifer yr aelwydydd a oedd yn cael tai cymdeithasol drwy'r llwybr digartrefedd ar ei lefel isaf mewn 10 mlynedd (12.8 y cant, o gymharu ag 17 y cant y flwyddyn flaenorol).⁴⁸

Achosion o droi allan

65. Ymhellach i gwestiynau ynghylch a allai ôl-ddyledion atal aelwyd rhag symud i eiddo llai o faint, ceisiodd y Pwyllgor ddeall a oedd achosion o droi allan yn cynyddu o ganlyniad i denantiaid yn gorfod talu cost lawn eu rhent yn dilyn diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.

66. Dywedodd Shelter Cymru fod nifer yr achosion o adfeddiannu tai cymdeithasol ar ei uchaf ers saith mlynedd,⁴⁹ gyda 1,000 o aelwydydd yn dod yn ddigartref yn 2014 - roedd hwn yn gynnydd o 12 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.⁵⁰ Nid oedd yn glir i ba fath o dai y byddai'r aelwydydd hyn wedi symud ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd deall y goblygiadau o ran cost, a chanlyniadau eraill. I ddychwelyd at y pwynt a wnaed uchod, pe byddai'r aelwyd yn symud i'r sector rhentu preifat, byddai cost hyn yn

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 12 Mai 2015

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 19 Mai 2015

⁴⁸ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 12 Mai 2015

⁵⁰ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

debygol o fod yn fwy i'r pwrs cyhoeddus na phe baent yn aros yn y sector tai cymdeithasol.

67. I'r gwrthwyneb, ni chanfu Llywodraeth Cymru, sy'n cyhoeddi ffigurau ar achosion o droi allan, gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o droi allan, gan nodi nad yw'r cynnydd disgwylidig wedi digwydd eto.

Barn y Pwyllgor

68. Er bod landlordiaid cymdeithasol yn iawn i osgoi rhoi tenantiaid mewn sefyllfa lle y byddant yn methu drwy eu gwneud yn ymwybodol o gostau rhedeg cartref, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai asesiadau gallu ariannol arwain at ganlyniad anfwriadol o wahardd rhai pobl rhag cael mynediad i dai cymdeithasol ar y sail eu bod yn "rhy dlawd". Efallai y bydd y defnydd o asesiadau o'r fath yn cael effaith anghymesur ar rai grwpiau o bobl, fel plant sy'n gadael gofal, pobl ag anawsterau dysgu a'r rhai sy'n dianc rhag trais domestig.

69. Drwy ddeall pwy sy'n defnyddio tai cymdeithasol ar hyn o bryd a phwy sydd ddim, gallai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi tai ar gyfer y sector tai cymdeithasol i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid wella'r ffordd y maent yn nodi ac yn cefnogi pobl sydd â'r angen mwyaf am dai.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro effaith yr asesiadau gallu ariannol ac yn gwneud gwaith ymchwil i broffil yr ymgeiswyr sy'n methu'r asesiadau hyn.

70. Er bod y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu bod y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol wedi adolygu eu polisïau trosglwyddo er mwyn sicrhau nad yw ôl-ddyledion yn atal pobl rhag symud i eiddo llai o faint, nid oes unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wneud hynny. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro landlordiaid cymdeithasol er mwyn sefydlu a yw hyn yn digwydd yn gyson ledled Cymru, a chynhyrchu canllawiau os bydd angen.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau na all landlordiaid cymdeithasol atal tenantiaid rhag trosglwyddo i eiddo llai os oes ganddynt ôl-ddyledion sydd wedi codi o ganlyniad i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr.

71. O ystyried y diffyg eglurder ynghylch nifer yr achosion o droi allan, a thynged yr aelwydydd hynny sy'n cael eu troi allan, dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o achosion o droi allan o dai cymdeithasol. Dylai hyn

sicrhau dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o achosion a goblygiadau troi allan, yn enwedig lle maent yn arwain at gost bellach i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o achosion o droi allan o dai cymdeithasol a'r canlyniadau i aelwydydd ar ôl i hynny ddigwydd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau ar gyfer landlordiaid tai cymdeithasol a rhoi canllawiau i sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael eu cynorthwyo, waeth faint o fodd ariannol sydd ganddynt.

5. Gwasanaethau cynghori

72. Ymateb allweddol gan Lywodraeth Cymru i'r agenda diwygio lles oedd cynyddu'r gwasanaethau cynghori sydd ar gael i denantiaid cymdeithasol. Rhoddodd £2 filiwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gwasanaethau cynghori. Cynyddodd landlordiaid cymdeithasol hefyd y cyngor a'r gefnogaeth y maent yn eu rhoi i'w tenantiaid yn sgil y canfyddiad o ddiffyg ymgyrch codi ymwybyddiaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.⁵¹

73. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod ymrwymiad i ddarparu £2 filiwn ar gyfer cymorth cynghori yn 2015-16. Nid oes unrhyw ymrwymadau wedi cael eu gwneud y tu hwnt eleni. Cafodd cyfran sylweddol o'r £2 filiwn, sef £1.3 miliwn, ei ddyfarnu i Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru i ddarparu gwasanaeth arbenigol ar y cyd ar gyfer budd-daliadau, dyledion a chyngor ar dai.⁵²

74. Daeth yr arian ychwanegol yng nghyd-destun gostyngiad ehangach mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori annibynnol. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod lefel y cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori annibynnol yng Nghymru wedi'i dorri £4.1 miliwn yn 2013-14, ac roedd incwm Cyngor ar Bopeth Cymru wedi lleihau mwy na £2 filiwn.⁵³ Er bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i groesawu gan Cyngor ar Bopeth Cymru, dywedodd hefyd ei fod yn parhau i fod yn ddibynnol ar awdurdodau lleol am ei gyllid craidd.⁵⁴

75. Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod pobl yn aml yn amharod i ofyn am gyngor neu'n ofni gwneud hynny,⁵⁵ a chlywodd y Pwyllgor hefyd nad oedd tenantiaid yn cydnabod yn aml bod ganddynt fudd-daliadau a oedd yn newid - er enghraifft, nid oeddent yn credu eu bod yn talu rhent ac y byddent yn wynebu diffyg yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.⁵⁶

76. Datblygodd nifer o landlordiaid eu gallu eu hunain i gynghori a chefnogi tenantiaid ynglŷn â newidiadau mewn budd-daliadau a chyllidebu ar gyfer y cartref. Roedd hyn yn cynnwys y broses o asesu gallu ariannol a drafodwyd uchod, ac roedd yn cynnwys rhoi cyngor i denantiaid ar gynhwysiant ariannol, bwyd a gwybodaeth am ynni, yn ogystal â gwybodaeth am sgiliau a

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 12 Mai 2015

⁵² PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

⁵³ Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - [Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru](#), Ionawr 2015

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 12 Mai 2015

⁵⁵ PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 19 Mai 2015

chyfleoedd gwaith.⁵⁷ Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod y £56 miliwn hwnnw wedi'i wario gan y sector tai y flwyddyn flaenorol i roi cyngor a chymorth o'r fath, gyda 74 y cant o gymdeithasau tai yn cynyddu adnoddau er mwyn rhoi mwy o gymorth wyneb-yn-wyneb i denantiaid.⁵⁸

77. Mae darparu gwasanaethau cynghori yn fewnol wedi caniatáu i landlordiaid ganolbwyntio ar eu tenantiaid a gweithredu'n gyflym pan nodwyd aelwydydd a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Dywedodd Wales and West:⁵⁹

“[W]e're often the very first to know, so as soon as a payment doesn't come in, we know immediately, and if we know that somebody is under occupying, we can contact them immediately, the day after that payment hasn't come in, saying, 'We haven't received a payment; what's happened? Can we talk about that? Can we support that?' So, we're often in a very good place to assist really quickly.”

78. Roedd Cartrefi NPT a Wales and West ill dau yn fodlon bod eu hymdrechion cynyddol i ddarparu cymorth o'r fath wedi helpu tenantiaid i ddeall yn llawn yr effaith arnynt yn sgil newidiadau lles, gan ddileu'r ymdeimlad o wadu a welwyd i ddechrau.

79. Clywodd y Pwyllgor rai pryderon efallai nad yw gwasanaethau cynghori a ddarperir gan landlordiaid yn rhoi'r farn fwyaf cytbwys i'r tenant ynghylch ei opsiynau. Er enghraifft, gall gorchymyn gostwng dyled neu fethdaliad fod yn opsiwn mwy priodol i denant ag ôl-ddyledion rhent, ond ni fyddai o fudd i'r landlord argymell y trywydd hwnnw.⁶⁰ Roedd Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu mai atynt hwy y byddai tenant yn hyderus i droi, yn hytrach na'u landlordiaid eu hunain, yn enwedig os oedd gan y tenant bryderon am ôl-ddyledion rhent.

80. Yn ychwanegol at y cymorth dwys wyneb-yn-wyneb a chyngor mewnol, buddsoddodd cymdeithasau tai mewn ymgyrch ar y cyd, “Mae Budd-daliadau yn Newid”. Roedd TPAS Cymru yn cefnogi'r cydweithio a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch hon, ond nododd y lefel gymharol isel o dreiddiad - dim ond 16 y cant o denantiaid a oedd wedi clywed am yr ymgyrch.⁶¹

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 12 Mai 2015

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 12 Mai 2015

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 196, 19 Mai 2015

⁶⁰ PAC(4)-14-15 papur 1, 19 Mai 2015

⁶¹ PAC(4)-14-15 papur 1, 19 Mai 2015

81. Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei phryder i'r Pwyllgor am y dyblygu o ran gwasanaethau cynghori, a datblygodd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol fel ffordd o greu safonau ac edrych yn gyffredinol ar y gwasanaethau cynghori yr oedd eu hangen.⁶² Mewn gohebiaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ffocws penodol y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol oedd darparu cyfeiriad strategol wrth fynd i'r afael â'r tensiwn cynyddol anodd rhwng adnoddau sy'n lleihau a'r cynnydd yn y galw ac y bydd yn dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i helpu i lywio'r ffordd ymlaen. Roedd hyn yng nghyd-destun y gostyngiad cyffredinol mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori, lle nad oedd modd i Lywodraeth Cymru gamu i mewn a llenwi'r holl fylchau.⁶³

Barn y Pwyllgor

82. Mae cynaliadwyedd ac addasrwydd gwasanaethau cyngor i denantiaid cymdeithasol yn bryder i'r Pwyllgor. Mae manteision amlwg i landlordiaid gael gwell dealltwriaeth o sefyllfa eu tenantiaid, ac o ran gallu ymateb yn rhagweithiol ac yn gyflym i broblemau tenantiaid. Dylai hyn helpu i ddatblygu perthynas fwy cefnogol a chlos rhwng tenantiaid a landlordiaid. Mae yna hefyd fanteision i wasanaethau cynghori allanol, sy'n gallu sefydlu ymddiriedaeth gyda thenantiaid a rhoi cyngor mwy cyflawn ac annibynnol iddynt. Ni fyddai un opsiwn yn well na'r llall o reidrwydd, ond byddai'n diwallu gwahanol anghenion.

83. Rydym yn pryderu ynghylch y gwrthdaro buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â chyngor ar dai yn cael ei ddarparu gan landlord cymdeithasol neu awdurdod lleol. Rydym hefyd yn pryderu bod y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori yn cael effaith anghymesur ar wasanaethau llai, mwy arbenigol - gan gynnwys ar gyfer rhai cymunedau lleiafrifol - nad ydynt yn cael eu darparu mor effeithiol gan y darparwyr gwasanaeth mwy o faint.

84. Bydd y system les yn parhau i newid dros y blynyddoedd i ddod. Er mwyn sicrhau bod sefydliadau mewn sefyllfa dda i roi cyngor, dylai Llywodraeth Cymru fod yn eglur ynghylch ei chyllid. Rydym yn deall bod rhywfaint o amharodrwydd yn aml i ddarparu ymrwymadau ariannu aml-flwyddyn o gofio'r ansicrwydd ynghylch cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun, ond byddem yn dychmygu y gellid ymrwymo cyllid ar lefel debyg i'r £2 filiwn presennol gyda pheth sicrwydd.

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 02 Mehefin 2015

⁶³ PAC(4)-04-15 Papur 5, 03 Chwefror 2015

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cynnig ariannu tymor hwy i'r sector gwasanaethau cynghori er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau'n fwy effeithiol.

85. Fel rhan o ddatblygiad y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol, mae cyfle i adolygu gweithgarwch presennol a datblygu arfer gorau yn dilyn yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori.⁶⁴ Yn benodol, dylai hyn ddangos yn fwy eglur fanteision ac anfanteision landlordiaid a chyrff annibynnol yn darparu cyngor. Byddai hyn yn eu galluogi i adnabod eu cryfderau cymharol a datblygu gwasanaethau mwy cydategol.

86. Dylai hyn gynnwys ymchwilio i a yw dyfarnu y rhan fwyaf o'r cyllid i ddau sefydliad mawr wedi arwain at leihad mewn gwasanaethau cynghori gan fudiadau llai sy'n cefnogi cymunedau penodol. Dylai hefyd ystyried pam mai prin oedd llwyddiant yr ymgyrch Mae Budd-daliadau yn Newid o ran gwella dealltwriaeth tenantiaid cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn gwerthuso cydbwysedd y cyngor a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol a gwasanaethau annibynnol, gan gynnwys cynnal arolwg o denantiaid i nodi sut maent yn defnyddio'r gwasanaethau cynghori a'r arbedion a wneir yn sgil defnyddio gwasanaethau cynghori. Dylai hyn hefyd gynnwys gwerthusiad o'r gwasanaethau a gollwyd o ganlyniad i roi llai o gyllid i wasanaethau cynghori.

⁶⁴ gov.wales/statistics-and-research/advice-services-review/?lang=cy

6. Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

87. Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn rhoi'r disgresiwn i awdurdodau lleol wneud taliadau i'r rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai/cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor y mae angen cymorth ariannol pellach arnynt gyda'u rhent neu dreth gyngor. Mae gan gynghorau ddisgresiwn sylweddol ynghylch sut y maent yn gweinyddu'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Nid oes unrhyw ddyletswydd arnynt i wneud Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ac yn gyffredinol ni chânt eu talu am byth.

88. Caiff cyllid ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ei ddyrannu i bob awdurdod lleol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae'n arian wedi'i glustnodi. Gall awdurdodau lleol ychwanegu at gyllid Llywodraeth y DU o'u hadnoddau eu hunain, yn amodol ar derfyn gwariant.

89. Mae maint dyraniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn amrywio gryn dipyn. Mae hyn oherwydd y ffordd y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dyrannu cyllid, yn unol â fformiwla sydd, yn ei hanfod, yn golygu y mwyaf y mae cynghorau'n ei wario ar Fudd-dal Tai, y mwyaf yw'r dyraniad a gânt. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu ychwanegu at ddyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau gyda'i arian ei hun - a gall ychwanegu hyd at 2.5 gwaith dyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau - yna bydd yn cael mwy o arian y flwyddyn ganlynol. I'r gwrthwyneb, os bydd awdurdod lleol yn dewis peidio â gwario dyraniad llawn yr Adran Gwaith a Phensiynau bydd yn cael swm llai y flwyddyn ganlynol. Felly, mae maint y dyraniad ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn adlewyrchu, yn rhannol, y flaenoriaeth y mae cynghorau wedi ei rhoi i sicrhau bod Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar gael i'r cyhoedd, nid nifer y bobl ag anghenion ariannol yn ymwneud â thai a'r ystod o gostau tai y mae cyngor yn eu hystyried sy'n gymwys i gael cymorth.

90. Golyga hyn, yn baradoesaidd, fod gan rai o'r awdurdodau lleol sydd â'r nifer fwyaf o denantiaid tai cymdeithasol y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt y lefelau isaf o ddyraniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

91. Disgrifiodd Shelter Cymru y system Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn fel un sy'n ddifrifol o ddiffygiol o ystyried y diffyg cyfatebiaeth rhwng anghenion tai lleol a maint y gyllideb.⁶⁵ Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y defnydd o Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cynyddu, gyda chynnydd triphlyg rhwng 2012-13 a 2013-14. Roedd y defnydd yn amrywio ledled Cymru, ac

⁶⁵ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

nid oedd yn cael ei ysgogi gan angen. Roedd y swm cyffredinol o arian a oedd ar gael i awdurdod lleol yn dibynnu ar ei ddefnydd o ddyraniadau presennol: os oedd awdurdod lleol yn ychwanegu at ddyraniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gyda'i arian ei hun, a gall wneud hynny hyd at 2.5 gwaith dyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau, byddai'n cael dyraniad mwy o faint y flwyddyn ganlynol. Os na fyddai'n defnyddio ei ddyraniad, byddai'r dyraniad yn cael ei leihau y flwyddyn ganlynol.

92. Amlygodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod anghysondebau a gwendidau wrth weinyddu taliadau, ac nad oedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bolisi clir ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn nac arweiniad sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y meini prawf ar gyfer dyraniadau wedi amrywio yn 2013-14.⁶⁶

“[T]here has been quite a lot of change—turbulence, even—in the flow of that resource into Wales. So, I believe in one year, 2013-14, there was money allocated, then there was money allocated to local authorities from the Department for Work and Pensions in relation to an additional criterion, and then there was a further bidding round where local authorities were able to make a case for further moneys.”

93. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Archwilydd Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei ganfyddiadau a sut yr oedd materion wedi datblygu yn 2014-15. Yn ei lythyr at y Cadeirydd,⁶⁷ dywedodd nad yw'r dosbarthiad o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael eu hysgogi gan angen o hyd, bod perfformiad yn dal i amrywio'n sylweddol a bod rhai o'r cynghorau sydd â'r nifer leiaf o denantiaid tai cymdeithasol y mae diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi effeithio arnynt wedi cael cyfrannau uwch o ddyraniadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

94. Er bod Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn gronfa nad yw wedi'i datganoli, darparodd Llywodraeth Cymru gronfeydd untro ychwanegol ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn 2013-14. Clywodd y Pwyllgor fod hynny wedi'i ryddhau'n hwyr yn y flwyddyn ariannol, gyda dim ond tua £1 miliwn o'r £1.3 miliwn wedi'i ddefnyddio gan awdurdodau lleol ac eraill yn gwrthod y cyllid gan ddisgwyl na fyddent yn gallu ei ddefnyddio.⁶⁸

95. Clywodd y Pwyllgor fod ymwybyddiaeth o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn isel iawn ymhlith cleientiaid Shelter Cymru.⁶⁹ Clywodd y Pwyllgor na

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 02 Mehefin 2015

⁶⁷ PAC(4)-15-15 Papur 1, 02 Mai 2015

⁶⁸ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

⁶⁹ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

roddwyd cyhoeddusrwydd da iddynt gan awdurdodau lleol, gan ofni y byddai hynny'n arwain at gynnydd yn y galw, na chan rai landlordiaid, oherwydd disgwyliad mai cam dros dro oeddent - er mwyn atal tenantiaid rhag dod yn ddibynnol ar gymorth tymor byr.

Anghysondeb

96. Mae'r anghysondeb yn y defnydd o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn arbennig o heriol ar gyfer cymdeithasau tai, darparwyr cyngor a chyrrff cynrychioliadol sy'n gweithredu mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol. Dywedodd Tenantiaid Cymru eu bod wedi gobeithio am ddull gweithredu cyson, gydag arweiniad clir i denantiaid ac awdurdodau lleol ynghylch sut i wneud y penderfyniadau hynny ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn.⁷⁰ Roedd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi gweld costau mawr yn gysylltiedig â gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.⁷¹

97. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn delio â nifer sylweddol o gleientiaid â phroblemau sy'n ymwneud â Thaliadau Tai yn ôl Disgresiwn (1,600 yn 2014-15).⁷² Mae ei lwyth achosion yn awgrymu bod anghysondeb sylweddol ledled Cymru.

98. Clywodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu protocolau i greu cysondeb ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Gofynnodd Shelter Cymru am ddatganoli Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru gydgysylltu eu defnydd, hyd yn oed os na fyddai lefel y cyllid cyffredinol yn cynyddu.⁷³

Tenantiaid ag anableddau

99. Fel enghraifft o'r math o anghysondeb a welir ledled Cymru, roedd rhai awdurdodau lleol yn ystyried budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth gyfrifo incwm tenantiaid. Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru yn anfodlon iawn gydag awdurdodau lleol a oedd yn gwneud hyn, ac yn gobeithio y byddai mwy o gysondeb yn atal yr arfer hwn.⁷⁴

100. Byddai hyn yn enghraifft o awdurdodau lleol yn defnyddio eu disgresiwn, ac yn groes i sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn awgrymu y

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 93, 12 Mai 2015

⁷¹ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

⁷² PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

⁷³ PAC(4)-13-15 Papur 3, 12 Mai 2015

⁷⁴ PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

dylid defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Awgrymodd llawlyfr yr Adran Gwaith a Phensiynau o fis Ebrill 2014:⁷⁵

“you may decide to disregard income from disability related benefits as they are intended to be used to help pay for the extra costs of disability.”

101. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ystyried sut i i dargedu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn orau, i gynorthwyo grwpiau targed yn arbennig. Mae'r canllawiau'n rhoi'r enghreifftiau canlynol fel math o denant y gall awdurdod lleol fod am ei gynorthwyo i aros yn ei gartref:

“where the claimant or someone in their household has a disability which requires them to have a larger property than would usually be the case for the size of their household due to, for example, a medical condition that might mean they are unable to share a bedroom;

“people with disabilities who receive informal care and support in their current neighbourhood from family and friends which would not be available in a new area. In this respect you may also consider families who have a child with a disability who rely heavily on local support networks.”

Fframwaith Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

102. Yn ystod ystyriaethau'r Pwyllgor, dywedodd fod 20 o blith 22 o awdurdodau lleol Cymru wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:⁷⁶

“a kind of framework within which authorities will operate, and there's a recognition within that framework that there will be an element of local determination as to what the priorities will be. It's a strategic framework that can be applied to respond to the different needs of different authorities.”

103. Cafodd y cytundeb ar y fframwaith hwn ei gydgysylltu gan y Welfare Reform Club, ymgynghoriaeth breifat. Dywedodd y Welfare Reform Club pan

⁷⁵ Discretionary Housing Payments Guidance Manual Including Local Authority Good Practice Guide, Ebrill 2014, paragraff 3.9

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 02 Mehefin 2015

lansiwyd y fframwaith ei fod wedi cael cefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, sydd wedi disgrifio'r fframwaith newydd fel un arloesol.⁷⁷

104. Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r fframwaith, ond gwrthododd y Welfare Reform Club ei ddarparu, gan ddweud ei fod yn gynnyrch masnachol y mae'n gobeithio ei drwyddedu i'w ddefnyddio ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr. Yn yr un modd, nid oedd modd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ychwaith rannu'r ddogfen, gan nodi cyfrinachedd fel rheswm. Yn y pen draw, cafodd y Pwyllgor ei gyfeirio gan Lywodraeth Cymru at ddrafft o'r fframwaith a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Sir Powys.

105. Y ddau awdurdod lleol na wnaethant ag ymuno â'r cytundeb oedd Castell-nedd Port Talbot a Chaerdydd. Roedd hyn yn syndod, gan fod dyraniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn Caerdydd yn 15 y cant o gyfanswm dyraniad Cymru, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi wrth ddosbarthu ei chyllid ychwanegol yn 2013-14 y dylai awdurdodau lleol a fyddai'n derbyn y cyllid adeiladu ar waith Cyngor Caerdydd wrth redeg eu cynlluniau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

106. Ceir enghreifftiau lle mae'r fframwaith hwn yn groes i'r arfer gorau a glywodd y Pwyllgor - er enghraifft, mae'n argymhell cynnwys budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn yr asesiad o incwm tenantiaid, a oedd yn groes i'r hyn a ffafriwyd gan Cyngor ar Bopeth a chywair canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Nid yw'n glir a ymgynghorwyd ag unrhyw gyrrff rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu'r fframwaith, a fyddai wedi helpu i adeiladu ar arfer gorau.

Barn y Pwyllgor

107. Croesewir y cytundeb fframwaith, o ran y ffaith y dylai sicrhau mwy o gysondeb, gan olygu y bydd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael eu gweinyddu'n fwy effeithlon ledled Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod wedi rhoi mwy o arweiniad wrth frocera'r fframwaith hwn, yn hytrach na thalu i ddefnyddio ymgynghoriaeth breifat. Gallai hyn fod wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru gael mwy o ddylanwad ar y ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu defnyddio - er enghraifft, yn unol â'r model a ffefrir ganddi a ddefnyddir gan Gyngor Caerdydd.

⁷⁷ [Welfare Reform Club](#) (Saesneg yn Unig)

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn arfer mwy o ddylanwad er mwyn sicrhau dull cyson o ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn ledled Cymru.

108. Ar hyn o bryd, nid yw'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o graffu wedi bod ar y fframwaith, nac ei fod wedi'i ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a thenantiaid. Mae'n destun pryder bod y fframwaith yn cynnwys budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth gyfrifo incwm tenantiaid.

109. O ystyried bod arian ar gael, dylai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol annog tenantiaid i fanteisio ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cyhoeddi'r nifer sy'n manteisio ar daliadau tai yn ôl disgresiwn yng Nghymru, gan gynnwys sut mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn rhoi gwybod i denantiaid am argaeledd taliadau a'r wybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod pob awdurdod lleol a chymdeithas dai yn rhoi cyhoeddusrwydd i daliadau tai yn ôl disgresiwn, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd cysylltiedig. Dylent hefyd sicrhau nad yw budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau incwm, ac esbonio pam nad ydynt wedi defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn lle y bo hynny'n briodol.

7. Yr heriau yn y dyfodol

110. Mae'r diwygiadau i fudd-dal tai a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn rhagarweiniad i newidiadau eraill fel rhan o agenda diwygio Lles Llywodraeth y DU. Bydd y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn yn y blynyddoedd i ddod, newidiadau i gymhwysedd ar gyfer budd-dal tai, disodli Lwfans Byw i'r Anabl gyda Thaliadau Annibyniaeth Bersonol, a chap is ar fudd-daliadau oll yn creu heriau i wasanaethau datganoledig a'u defnyddwyr.

111. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru y byddai'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cyngori a drafodir uchod yn cynyddu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod, gyda newidiadau parhaus i'r system les sy'n gofyn am gyfathrebu'n barhaus â thenantiaid ac esboniad o sut y byddai unigolion yn cael eu heffeithio.⁷⁸

Credyd Cynhwysol

112. Mae Credyd Cynhwysol, sy'n golygu talu un taliad misol yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynnydd yn lle'r chwe budd-dal presennol, wedi cael ei dreialu mewn rhannau o Gymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Clywodd y Pwyllgor fod gwybodaeth gynnar yn dangos cynnydd enfawr mewn ôl-ddyledion yn ogystal â'r angen am newidiadau i'r system a chymorth pellach mewn meysydd megis cynhwysiant digidol, cyllidebu a chyfleu terminoleg newydd.⁷⁹

113. Clywodd y Pwyllgor nad oedd 54 y cant o denantiaid ledled Cymru wedi clywed am Credyd Cynhwysol,⁸⁰ gan awgrymu y byddai angen llawer iawn o waith i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau.

114. Amlygodd ymchwil gan Gyngor ar Bopeth Cymru yr anawsterau y byddai tenantiaid yn eu hwynebu wrth wneud a rheoli hawliadau ar-lein, sef elfen allweddol o'r Credyd Cynhwysol. Nid oedd modd i ddwy ran o dair o'r cyfranogwyr yn eu hastudiaeth allu mynd ar-lein i reoli hawliad, ac roedd cymorth gan Gyngor ar Bopeth Cymru wedi gwella sgiliau a gallu 62 y cant o hawlwr.⁸¹ Mae'n debygol y bydd hefyd angen cymorth i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn llawn, er mwyn galluogi hawlwr i weithredu ar-lein.

115. Dywedodd y tystion y byddai'r her i denantiaid yn sgil rheoli taliadau budd-daliadau uniongyrchol bob pedair wythnos yn gwaethygu mewn

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 12 Mai 2015

⁷⁹ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

⁸⁰ PAC(4)-13-15 papur 1, 12 Mai 2015

⁸¹ PAC(4)-13-15 Papur 4, 12 Mai 2015

achosion lle mae'r tenantiaid yn gorfod talu ôl-ddyledion i landlordiaid. Dywedodd Tenantiaid Cymru:⁸²

“For example, moving to four-week payments will create a gap in funding for that family when they do make that transition. The Department for Work and Pensions have agreed with the housing association sector that between 10 per cent and 20 per cent are stopped at source to pay back rent arrears. Where currently, if you went to court, a reasonable sum would be paid—that’s usually around £16.50 a month, or £3.80 a week—the new arrangements will be that between 10 per cent and 20 per cent of the total universal credit could be stopped. Now, that means an increase of up to about £80 a week, potentially. What we’re concerned about is the viability of tenants’ incomes and the pressures that will put on people once that’s in force.”

116. Roedd Cartrefi NPT yn rhag-weld y byddai ôl-ddyledion yn cynyddu o dan y Credyd Cynhwysol, gan nodi y bydd nifer gymharol fawr o’u tenantiaid yn derbyn Credyd Cynhwysol.⁸³ Mae eu peilot gyda chydweithwyr mewn byrddau gwasanaethau lleol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn awgrymu na fyddai 72 y cant o grŵp ar hap o denantiaid yn gallu ymdopi ag ymdrin â’r Credyd Cynhwysol.⁸⁴

117. Mewn rhai achosion, byddai’r Adran Gwaith a Phensiynau yn gallu darparu taliadau budd-dal tai yn uniongyrchol i landlordiaid, yn hytrach nag i’r sawl sy’n derbyn Credyd Cynhwysol, a disgwylir i hynny fod tua phump y cant o’r rhai fyddai’n ei dderbyn. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddisgwyliad bod hwnnw’n amcangyfrif rhy isel, ac y byddai nifer fwy o denantiaid a fyddai’n agored i niwed lle byddai angen i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud i’r landlord.

Newidiadau eraill

118. O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd yr hawl awtomatig i Fudd-dal Tai yn dod i ben ar gyfer hawlwyf newydd sydd rhwng 18 a 21 oed ac yn ddi-waith.⁸⁵ Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddeall beth fyddai effaith y newid hwn ar y rhai a oedd yn ei dderbyn yng Nghymru, a gofynnodd i Lywodraeth Cymru am ei hasesiad o nifer tebygol y rhai sy’n derbyn Budd-dal Tai y byddai’r

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 19 Mai 2015

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 259, 19 Mai 2015

⁸⁴ Ibid

⁸⁵ [Cyllideb Llywodraeth y DU Haf 2015, tudalen 41 \(Saesneg yn unig\)](#)

newid arfaethedig, a'r newid pellach posibl, yn effeithio arnynt. Roedd Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai tua 1,200 o hawlwr Budd-dal Tai yn cael eu heffeithio, heb unrhyw eithriadau, ac mai'r golled gyfartalog fesul hawlwr fyddai tua £90 yr wythnos, sy'n golygu y byddai £6 miliwn yn cael ei arbed bob blwyddyn.⁸⁶ Yn ogystal, bydd Budd-dal Tai yn cael ei rewi am bedair blynedd o 2016-17 ymlaen.

119. Mae'r cap ar fudd-daliadau, sy'n gosod terfyn ar y cyfanswm wythnosol o fudd-dal y gallai teulu nad yw'n gweithio eu derbyn, hefyd yn debygol o gael ei leihau gan Lywodraeth y DU. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai tua 3,000 o deuluoedd yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan leihad yn y cap o £26,000 i £23,000 y flwyddyn, sef safbwynt Llywodraeth y DU adeg ei thystiolaeth. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ystod Cyllideb haf 2015 y byddai'r gostyngiad mewn gwirionedd yn effeithio ar £20,000 o aelwydydd y tu allan i Lundain.⁸⁷

Barn y Pwyllgor

120. Mae'r ymateb blaenorol i ddiwygio lles wedi rhoi gwersi clir i Lywodraeth Cymru eu dysgu. Pwynt canolog yw bod angen i'r gwaith paratoi ar gyfer diwygio lles ddechrau cyn gynted ag y bo modd er mwyn bod yn effeithiol, ac ni all newidiadau gael eu hanwybyddu yn y gobaith y cânt eu diddymu. Mae deall proffil y rhai sy'n derbyn budd-daliadau yn helpu i asesu'r effaith debygol a datblygu strategaeth ar gyfer ymdrin â'r newidiadau.

121. Rydym yn credu y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddangos arweiniad a chydgyssylltu'r ymateb i ddiwygio lles yng Nghymru. Dylai ymgynghori gynnwys partneriaid allweddol a chyrrff sydd â diddordeb i rannu dealltwriaeth o sut y byddai gwasanaethau datganoledig yn cael eu heffeithio gan newidiadau. Ni ddylai'r enghraifft o ddatblygiad y fframwaith Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gael ei hailadrodd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn gynnar ar effaith debygol y newidiadau yn y system les, gan gynnwys y newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer cymhwysedd Budd-dal Tai ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed, ac yn ymgynghori'n gynnar ac yn eang ar ei hymateb arfaethedig.

⁸⁶ PAC(4)-18-15 PTN5, 23 Mehefin, 2015

⁸⁷ [Cyllideb Llywodraeth y DU Haf 2015, tudalen 88 \(Saesneg yn unig\)](#)

Atodiad A: Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1311

12 Mai 2015

Enw

Helen Northmore
Lindsey Kearton
Elle McNeil
Sioned Hughes
Paul Langley
Jennie Bibbings
John Puzey
Sandra Alexander

Sefydliad

Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
Shelter Cymru
Shelter Cymru
Cyngor Bro Morgannwg

19 Mai 2015

Enw

Claire Maimone
Linda Whittaker
David Lloyd
Mike Halloran
Steve Porter
Jim McKirdle
Steve Clarke

Sefydliad

Cartrefi NPT
Cartrefi NPT
TPAS Cymru
Tai Wales & West
Tai Wales & West
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tenantiaid Cymru

02 Mehefin 2015

Enw

June Milligan
Sara Ahmad
John Howells

Sefydliad

Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru